Thomas Jones o Gaer, 1737–1813
Cristion a chymwynaswr

Yn hanes Cristnogaeth Cymru y mae llu o bobl gyffredin, caredigion yr achos, sydd wedi neilltuo eu doniau a'u cyfoeth i hyrwyddo gwaith teyrnas Dduw, ac un o'r cyfryw rai yw Thomas Jones. Nid oes fawr o sôn amdano ar glawr, ac ni chyhoeddodd unrhyw lyfrau, ond eto yr oedd lle pwysig iddo yn hanes Cristnogaeth ei genhedlaeth.

Ganwyd ef ym mhentref Eccleston, ddwy filltir o Gaer, a'i dad yn ŵr duwiol a gadwai dyddyn ar stad Eaton. Pan oedd yn ifanc ei brif ddifyrrwch oedd dawnsfeydd, rasys ceffylau ac unrhyw ddiddanwch arwynebol arall. Fe'i prentisiwyd fel cyllellwr ac fe ddaeth maes o law yn eithriadol o gefnog. Er iddo ddod o dan argyhoeddiad wrth wrando ar George Whitefield yn pregethu, oerodd ei gariad cyntaf. Ailddaniwyd ei ffydd pan aeth ar fusnes i Lundain ac i oedfa yn eglwys Saint Dunstan's-in-the-West lle clywodd fachgen ifanc yn pregethu ffordd iachawdwriaeth. Llanwyd ei galon â gorfoledd, a'i enaid â thangnefedd. Daeth yn un o golofnau achos Annibynnol Queen Street, Caer, o 1772 ymlaen, ac fe'i hetholwyd yn ddiacon ym 1773. Ymddiddorodd mewn addysgu plant ac ef oedd yn gyfrifol am y bechgyn pan sefydlwyd ysgol Sul Queen Street. Dywedid y gallai fod yn ddyn od, ac weithiau'n flin, ond roedd ei haelioni yn ddigwestiwn.

Pan oedd yn dal yn gymharol ifanc penderfynodd ddau beth. Yn gyntaf, y byddai'n cynilo swm penodol o arian er mwyn gallu ymddeol yn gyffyrddus. Yn ail, wedi iddo gyrraedd y swm penodol hwnnw y byddai'n defnyddio unrhyw elw pellach er budd achos Duw a'i gyd-ddyn. Adleisiai'r penderfyniadau hyn egwyddorion Sect Clapham wrth iddynt ymdrin â'u cyfoeth. Bu Thomas Jones cystal â'i air, ac mae yna lawer o enghreifftiau o'i haelioni. Talodd arwystl (morgais) o £200 ar ran eglwys Queen Street, yn ogystal â phrynu rent y tir am £153/15/0 a dau ddarn o dir ar y stryd honno i'w rhoi fel rhodd i'r ymddiriedolwyr ym 1777. Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr yn y gwaith Cristnogol yn sir

Fflint. Cefnogodd ffurfio eglwys yn Nhreffynnon ym 1789 ac yr oedd yn un o'r ymddiriedolwyr pan godwyd capel Bagillt ym 1803. Talodd yn llwyr am godi capel a thŷ yn Rhes-y-cae ym 1808.

Telid cyflogau y Parchedigion Benjamin Evans, Rhuthun, a William Jones yn Arfon yn bennaf ganddo ef. Pan oedd y Parch. Azariah Shadrach yn Nhrefriw fe gafodd geffyl bychan a chyfrwy yn rhodd gan Thomas Jones i hwyluso'i deithio. Un tro, penderfynodd un o'i gyfeillion, George Lewis, ymfudo i America, ac er mwyn ei ddarbwyllo i aros aeth Thomas Jones ati i sefydlu chwech o ysgolion dyddiol yn y gogledd a gofyn i George Lewis eu harolygu. Cytunodd yntau gan roi heibio'i fwriad i ymfudo.

Bu farw ar 5 Tachwedd 1813 a'i gladdu ym mynwent capel Queen Street, Caer. Yn ei ewyllys gadawodd arian mawr i nifer o achosion. Gadawodd £1,400 i'w buddsoddi, gydag elw o £700 yn mynd i gynorthwyo gweinidogion Ymneilltuol yng Nghymru, ac elw o £700 i gynnal yr ysgolion a arolygid gan George Lewis. Gadawodd £200 i'w buddsoddi i gynorthwyo myfyrwyr tlawd yn Academi Wrecsam. Rhoddodd gymynroddion o £200 i Gymdeithas Genhadol Llundain; £100 i Gymdeithas y Beibl; £100 i Gymdeithas y Traethodau Crefyddol; £100 i garchar merched yn Llundain; £300 i Gyfarfod Chwarter Sir Gaerleon (Chester) i daenu'r Efengyl, a £50 i ysbyty Caer.